# Enwogrwydd

Darn Darllen 1

## ‘Selebs’ ifanc sy’n methu ymdopi gydag enwogrwydd

Mae Hollywood yn lle anodd iawn i unrhyw un ddod yn enwog, oherwydd bod cymaint o ‘sêr’ yno’n barod, yn mynnu’r sylw i gyd. Er ei bod yn dderbyniol bod yn rhaid i unigolyn ymdrechu’n eithaf hir cyn cyrraedd y brig, mae pethau’n newid yn Hollywood. Mae’n beth digon cyffredin y dyddiau yma i unigolyn ddod yn enwog dros nos, ond yn anffodus i rai, gall yr enwogrwydd hwnnw ddiflannu dros nos hefyd. Daw rhai yn enwog oherwydd bod ganddynt rieni enwog, eraill oherwydd bod ganddynt sgiliau newydd, ffres ac eraill drwy lwc pur.

Mae Hollywood yn dwlu ar bobl ifanc, dalentog a hardd, gan eu bod yn edrych yn dda mewn ffilmiau ac ar gloriau cylchgronau. Mae selebs hardd yn cael gwaith yn haws, yn denu cyhoeddusrwydd yn gyflymach, ac yn cael mwy o ddylanwad ar y gynulleidfa ifanc na selebs hŷn. Mae’r ffordd y bydd y selebs ifanc hyn yn ymdopi â’u henwogrwydd yn dylanwadu ar ba mor hir y byddant yn llwyddo i aros yn enwog, neu a fydd yr enwogrwydd hwnnw’n diflannu lawr y plwg fel dŵr.

Un camgymeriad cyffredin mae selebs ifanc yn ei wneud yw meddwl y gallant wneud neu ddweud beth bynnag a fynnant, oherwydd bod ganddynt filiynau o bobl yn eu dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol, a miliynau yn y banc. Mae eu diffyg parch at eraill, eu diffyg doethineb a’u methiant i reoli eu hymddygiad yn golygu bod y selebs yma’n mynd ar nerfau pobl fwyfwy bob dydd.

Dyma rai enghreifftiau o selebs ifanc sy’n cael trafferth ymdopi gyda bod yn enwog:



**Kylie Jenner**

Mae hi’n un o’r Kardashians, sy’n ei rhoi dan lawer o bwysau. Mae ei chwaer, Kim Kardashian, a gweddill y teulu ar y teledu’n aml iawn ar eu rhaglen *Keeping up with the Kardashians* ac o ganlyniad, taflwyd Kylie i lygad y cyhoedd. Ei phroblem fwyaf yw ei bod eisiau sylw trwy’r amser, felly mae’r byd i gyd yn cael gwybod pan fydd hi wedi cael llawdriniaeth ar ei gwefusau, neu pwy yw ei phartner diweddaraf – ac ydy hi’n gwneud synnwyr bod gan ferch ifanc yn ei harddegau blasdy gwerth $2.7 miliwn? Ei phrif nod yw ceisio denu mwy o ddilynwyr a hyrwyddo ei hun, pan ddylai fod yn derbyn addysg ac yn creu gyrfa iddi’i hun.

**Chris Brown**

Roedd pethau wedi dechrau dirywio ym mywyd y seren R&B Chris Brown ymhell cyn 2009, pan drawodd ei gariad ar y pryd, Rihanna, yn ei hwyneb. Aeth pethau o ddrwg i waeth iddo ers hynny, ac aeth ei yrfa i lawr yr allt. Cafodd ei roi ar brawf am 5 mlynedd yn dilyn yr ymosodiad, ond ni lwyddodd i gadw at amodau’r ddedfryd, gan hyrddio cadair trwy ffenestr wydr pan holodd cyflwynydd *Good Morning America* ef am yr helynt efo Rihanna. Mae wedi cael trafferthion gyda chyffuriau ac er iddo dreulio cyfnod mewn clinig adfer, cafodd ei hel oddi yno ar ôl taflu carreg fawr at gar ei fam. Rhaid i Chris ddysgu ymddwyn yn gallach ac ymdopi’n well efo’i enwogrwydd.






**Justin Bieber**

Pan ddaeth Justin i’r amlwg yn y sîn gerddoriaeth, cafodd groeso enfawr gan ddilynwyr a chredai pawb y byddai’n parhau i fod yn eilun wrth iddo heneiddio ac aeddfedu, ond y dyddiau yma, mae ei gampau gwirion yn taflu cysgod dros ei dalent. Mae wedi siomi ei ddilynwyr wrth gyrraedd ddwyawr yn hwyr ar gyfer cyngherddau, mae’n dadlau gyda’r paparazzi ac yn ymladd mewn tafarnau. Bu ei gymdogion yn cwyno am ei yrru di-hid a’i sŵn mawr, sy’n tarfu arnynt. Mae’n amlwg nad ydy o’n gallu ymddwyn yn gyfrifol a’i fod yn credu y gall wneud fel y myn.

Darn Darllen 2

## Dyn doethach yw Glyn Wise



Tra bod rhai o'i gyd-breswylwyr yn nhŷ *Big Brother* 2006 wedi baglu a syrthio i bydew du, mae'r bachgen o'r Blaenau wedi dysgu gwersi a llwyddo i gadw ei draed ar y ddaear...

Ddechrau mis Ebrill roedd enillydd *Big Brother* 2006 ar raglen Jeremy Kyle yn datgelu ei fod yn ddigartref ac yn cysgu ar soffas ei ffrindiau. Cyfaddefodd Pete Bennett ar deledu iddo droi at gyffuriau ar ôl ennill £100,000 am ddod i'r brig ar y rhaglen realiti. Gwahanol iawn fu hanes y Cymro Cymraeg a ddaeth yn ail iddo ar *Big Brother* 2006.

Ond mae Glyn Wise yn cyfadde iddo ei chael yn anodd delio gyda bywyd ar ôl y sioe – oedd yn denu hyd at 10 miliwn o wylwyr ar y pryd. Erbyn hyn mae'r bachgen o Flaenau Ffestiniog yn byw bywyd iach yng Nghaerdydd ac wedi buddsoddi ei arian yn gall mewn eiddo yng Nghaergrawnt.

Am fisoedd wedi i'r sioe ddod i ben yn 2006 roedd bendithion rif y gwlith, a bywyd y Cymro ifanc yn chwyrlïo heibio gan milltir yr awr. 'Adeg yna, doedd yr arian ddim yn bwysig,' meddai Glyn Wise sy'n 27 oed erbyn hyn. 'Doeddwn i ddim yn deall be oedd £100,000, doeddwn i ddim yn deall be fysa fo'n golygu – achos pan ydach chi'n 18 tydach chi'n ddim callach. Rydach chi'n byw adre efo Mam a Dad ac yn gweithio fel *life guard* am £5.50 yr awr. Dim ond pan ydach chi'n symud allan [o dŷ rhieni] rydach chi'n sylweddoli be ydy arian.'

Mi agorodd *Big Brother* ddrysau lu iddo, ac fe gafodd ddigon o waith yn llygad y cyhoedd i allu fforddio prynu tŷ heb orfod trafferthu gyda morgais. 'Mae gen i dŷ yng Nghaergrawnt ac mae hwnna'n dod ag arian i mewn. Dwi'n rhentu fo allan... mae gen i arian da yn dod mewn bob mis, sy'n handi.' Yn anterth ei enwogrwydd roedd Glyn Wise yn marchnata tronsiau a anfarwolwyd gan David Beckham. 'Wnes i wneud un shoot i Calvin Klein, a ddaru hwnna ddod â £75,000 i mewn.'

Mae peryglon rhoi arian mawr i oedolion ifanc yn amlwg. Yn y cyfnod ar ôl *Big Brother* fe aeth Glyn Wise i 62 o glybiau nos mewn pedwar mis a chael tâl am ymddangos fel 'seleb', a bu ar bob rhaglen dan haul – o *Ready Steady Cook* i *The Richard and Judy Show, Uned 5* a sioe sgwrsio Charlotte Church. Mae'n dweud y byddai wedi elwa o gael cyngor a chymorth ar ôl bod ar y rhaglen. 'Ti'n enwog, yna ti'n fade-io, ac ar yr adeg yna mae'n dy daro di: Be dwi fod i wneud rŵan?'

Ers ei gyfnod ar y sioe realiti, mae Glyn Wise wedi graddio o Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd ac wedi cael cyfnod yn dysgu Cymraeg yn Ysgol Rhydywaun, Cwm Cynon. Bu hefyd yn gyflwynydd ar C2 Radio Cymru ac er nad yw'n gweithio'n gyson ar y cyfryngau ers sbel, mi hoffai wneud rhyw fath o waith teledu eto yn y dyfodol, meddai.

**Ffynhonnell**
Detholiad o erthygl gan Barry Thomas yn *Golwg*, 30.04.2015

Darn Darllen 3

## Sut i ddelio efo pwysau enwogrwydd

Weithiau bydd selebs yn cael trafferth ymdopi gyda bod yn enwog ac yn boblogaidd. Dyma rai awgrymiadau ar sut i beidio gadael i enwogrwydd gael y gorau arnoch:

Rhaid i chi ddeall bod enwogrwydd yn gallu mynd a dod ac nad oes neb yn gallu rheoli pa mor boblogaidd ydy o neu hi. Mae enwogrwydd yn anodd ei reoli.

**Cofiwch eich gwerthoedd bob amser.**
Bydd eich gwerthoedd gennych chi ar hyd eich oes, ond dim ond am amser byr y byddwch yn enwog. Gwnewch yr hyn sy'n teimlo'n iawn i chi a byddwch yn driw i'ch calon. Peidiwch ag ildio i bwysau gan eraill. Pan fydd y camerâu'n diflannu, dim ond chi, eich teulu a'ch ffrindiau agosaf fydd ar ôl.

**Ni fyddwch ar y brig am byth.**
Efallai mai amdanoch chi mae pawb yn sôn heddiw, ond mae yfory'n ddiwrnod newydd. Mae miliynau o bobl yn ymdrechu i fod yn yr un lle â chi ac ni fyddwch ar ben y rhestr yn hir.

Mae llawer o selebs yn canolbwyntio gormod ar eu henwogrwydd, sy ddim yn para'n hir. Camgymeriad yw hyn. Dylent ganolbwyntio ar eu bywyd personol yn hytrach nag ar eu henwogrwydd. Rhaid iddynt wneud y penderfyniadau cywir ar gyfer eu bywyd personol.

**Peidiwch â mynd yn rhy fawr i'ch sgidiau.**
Efallai eich bod yn hoffi cael pobl yn ceisio cael eich sylw, ond fe fydd y bobl yma'n ceisio cael sylw rhywun arall mewn ychydig amser. Mwynhewch yr amser a gewch mewn amlygrwydd ond cofiwch na fydd yn para.

Yn olaf, dysgwch o gamgymeriadau rhai eraill sydd wedi bod yn enwog. Mae sawl un wedi gwneud y camgymeriad o adael i enwogrwydd gael y gorau arnynt. Mynnwch air gydag arbenigwr os teimlwch fod pethau'n mynd yn drech na chi.

## Darllen

Ar ôl darllen y darnau darllen yn ofalus, atebwch y cwestiynau a ganlyn.

1. Nodwch, trwy roi tic yn y blwch priodol, pa rai o'r brawddegau isod sy'n gywir, yn ôl Darn Darllen 1:

*(Adalw gwybodaeth)*

a. Mae Kylie Jenner yn chwaer-yng-nghyfraith i Kim Kardashian. ☐
b. Mae Hollywood yn dwlu ar selebs ifanc, hardd. ☐
c. Yn 2009, trawodd Chris Brown ei gariad, Rihanna, yn ei stumog. ☐
ch. Hyrddiodd Chris Brown fwrdd drwy ffenestr wydr pan gafodd ei holi am yr helynt efo Rihanna. ☐
d. Mae Justin Bieber wedi siomi ei ddilynwyr wrth gyrraedd deirawr yn hwyr ar gyfer cyngherddau. ☐
dd. Mae gyrru di-hid Justin Bieber a'i sŵn mawr yn tarfu ar ei gymdogion. ☐

2. Beth yw ystyr y gair 'cymdogion', a welir ar ddiwedd Darn Darllen 1?
Ticiwch yr ateb cywir.

*(Deall cyd-destun)*

a. pobl sy'n gweithio yn yr un lle ☐
b. pobl sy'n byw yn yr un wlad ☐
c. pobl sy'n byw yn ymyl ei gilydd ☐
ch. pobl sy'n rhannu'r un diddordebau ☐

3. Nodwch dair berf orchmynnol a geir yn Narn Darllen 3. (Mae o leiaf saith yno.)

*(Deall cyd-destun)*

___________________________________________

___________________________________________

___________________________________________

4. Dywedir yn Narn Darllen 2 fod Glyn Wise wedi buddsoddi ei arian yn 'gall' trwy brynu tŷ yng Nghaergrawnt. Ceisiwch feddwl am ddau ansoddair arall sy'n cyfleu'r un ystyr â 'call' yn y cyd-destun hwn. Yna, ceisiwch esbonio pam fod hyn yn cael ei ystyried yn beth call i'w wneud. Beth arall allai Glyn fod wedi'i wneud gyda'r arian, o ystyried mai deunaw oed oedd o ar y pryd?

*(Deall cyd-destun, dadansoddi, adalw gwybodaeth, crynhoi a chyfuno, aralleirio)*

___________________________________________

___________________________________________

___________________________________________

___________________________________________

___________________________________________

___________________________________________

___________________________________________

___________________________________________

___________________________________________

5. Yn ôl y wybodaeth a roddir yn Narn Darllen 2, cysylltwch y parau cywir yn y ddwy golofn isod â llinell:

*(Adalw gwybodaeth)*

| | |
|---|---|
| enillydd *Big Brother* 2006 | Caergrawnt |
| cyflog Glyn Wise fel gwarchodwr bywyd | can mil o bunnau |
| y wobr i enillydd *Big Brother* 2006 | Ysgol Rhydywaun, Cwm Cynon |
| y dref lle prynodd Glyn Wise dŷ | pum punt a hanner can ceiniog yr awr |
| y ddinas lle mae Glyn Wise yn byw nawr | Pete Bennett |
| lle bu Glyn Wise yn athro Cymraeg | Caerdydd |

6. Yn eich geiriau eich hun, eglurwch beth yw peryglon pennaf dod yn enwog dros nos. A yw'n hawdd colli eich pen a gwirioni ar yr holl sylw? Sut gall rhywun enwog gadw ei draed ar y ddaear a sicrhau nad yw'n difetha ei enw da?

*(Adalw gwybodaeth, dadansoddi, deall cyd-destun, dod i gasgliad, mynd dan groen testun)*

7. Ar ôl darllen Darn Darllen 2, sut berson gredwch chi yw Glyn Wise? A yw wedi llwyddo i ymdopi gyda'i enwogrwydd 'dros nos'? Cymharwch y bachgen deunaw oed cyn iddo fynd i dŷ *Big Brother* yn 2006 gyda'r dyn saith ar hugain oed heddiw. Beth oedd ei obeithion cyn ymddangos ar y rhaglen? I ba raddau y newidiodd y rhaglen ei fywyd?

*(Adalw gwybodaeth, dadansoddi, dod i gasgliad, mynd dan groen testun)*

**Llafaredd**

8. Ymchwiliwch i hanes un o'r tri pherson enwog y sonnir amdanynt yn Narn Darllen 1. Mewn parau, paratowch gyfweliad gyda'r seren ar gyfer rhaglen deledu. Ceisiwch roi darlun teg o sut berson ydy o neu hi yn y cyfweliad.
(6–8 munud o gyfweliad)

9. Dychmygwch eich bod yn un o'r rhai sydd yng nhŷ *Big Brother* a'ch bod wedi bod yn byw yn llygad y cyhoedd am fis. Rydych yn mynd i'r ystafell ddyddiadur (*diary room*) ac yn cael cyfle i sôn am eich profiadau hyd yma ac i ddweud sut rydych yn teimlo.
(5 munud)

**Ysgrifennu**

10. Meddyliwch am berson enwog rydych chi'n ei edmygu. Ysgrifennwch lythyr ato ef neu hi'n gofyn iddo, neu iddi, gyfrannu eitem o'i eiddo ar gyfer arwerthiant i godi arian at elusen. Cofiwch ddefnyddio geirfa addas i geisio perswadio'r seren i gytuno i'ch cais, gan roi braslun o'r gwaith da a wneir gan yr elusen.
(Tua 250 gair)

11. Rydych am wneud cais i fod ar raglen *Big Brother*. Ysgrifennwch bortread ohonoch eich hun gan roi darlun llawn o'ch personoliaeth a dweud pam y byddech yn gystadleuydd da.
(Tua 300 gair)